



CYFARFOD Â FFERMWYR, 2 MEDI 2021

Trawsgrifiad o nodiadau hwyluswyr y grwpiau, 'pleidleisio' dros syniadau ar siartiau troi, y nodiadau a wnaeth Irene yn y sesiwn lawn. Dalier sylw: fe welch yn y ddogfen hon nodiadau'r hwyluswyr sy'n crynhoi trafodaethau llawer dyfnach.

TRAFODAETH AM SYNIADAU: NODIADAU'R GRWPIAU

GRŴP ESTHER

- Mae anhunanoldeb yn ddadleuol - agenda pwy yr ydym ni'n ei bodloni? Mae'n hawdd honni bod ffermio fel hyn yn beth da. Ond, os yw ffermwyr i elwa, byddai angen i'r dull fod yn wahanol.
- Ffermwyr organig yn Llanilar 2016 - ymddengys mai'r farchnad archfarchnadoedd Brydeinig, yn enwedig ar ôl Brexit, yw'r unig ffordd yn eu tyb nhw o wneud arian.
- Ailgyflwyno'r gylfinir a chydweithio â'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwylt (GWCT) - wedi ceisio cydweithio â chynlluniau amaeth-amgylcheddol, ond doedden nhw ddim wedi'u teilwra i ffermydd unigol - roeddent yn rhy gyffredinol eu natur - drwy weithio â'r GWCT, roedd modd dod o hyd i ddatrysiaid a oedd wedi'i deilwra i'r fferm.
- Arian yw'r hyn sy'n gyrru'r penderfyniadau bob tro - ymddengys mai'r system organig yw'r ffordd ymlaen, OND bydd ethos yn effeithio ar broffidioldeb bob tro.
- Mae gweledigaeth holistaidd yn cael ei gyrru gan elw.
- Glastir – codwyd amheuan ynglŷn â'r buddion i'w fferm a phenderfynwyd gadael y cynllun - i'w weld yn rhywbeth negyddol.
- Ffordd unigol o weithio yn hollbwysig. Dydy gweithredu mewn ardal ddaearyddol fawr ddim yn gweithio. Rhaid wrth ddulliau gwahanol os ydych yn ffermio ar ddaliadau ar wahân.
- Nid yw Glastir yn system hyblyg - rhai gallu ymateb i bwysau.
- Cyhoeddusrwydd gwael i amaeth - rhaid newid y neges.
- Mae'n anodd cyfrifo carbon.
- Mae gennym gynnyrch o safon fyd-eang yng Nghymru - ac rydym yn amsugno llawer iawn o garbon. Rhaid inni ddefnyddio gwyddoniaeth i brofi bod Gorrlewin Cymru yn ffermio'n gynaliadwy, OND rhaid i bethau wneud synnwyr yn ariannol hefyd.
- A dalu i'r pibydd a ddewis y dôn - nid oes gen ffermwyr fyth reolaeth dros eu tynged nhw eu hunain.
- Mae sut yr ydym yn cychwyn trafodaethau yn bwysig.
- Rhaid inni allu dangos sut y gall ffermwyr proffidiol fod o fudd i fyd natur dry newid y neges.
- Cadwyni cyflenwi lleol gwell.
- Lladd-dy/hufenfa gydweithredol.
- Rhaid i gynnyrch/cynhyrchu lleol fod â llawer mwy o werth iddo - rhaid inni gyfleu hyn wrth y sawl sy'n prynu ein cynnyrch.
- Rhaid inni edrych ar y gymuned ehangach. Mae addysg hefyd yn hollbwysig os ydym am sicrhau bod ein hieuenctid yn dychwelyd, OND rhaid i'r swyddi fod yno i'w hannog.
- Rhaid wrth weledigaeth ar gyfer Gorrlewin Cymru. Rhaid sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar bethau lleol iawn, a sicrhau ein bod yn cael effaith yn y fan honno.
- Rhaid canolbwyntio ar gynllunio - 'system lwgr'.
- Gellid rheoli'r broses gynllunio yn llawer mwy effeithiol ar lefel leol/ar lefel Cynghorau Cymuned o fewn rhai ffiniau, e.e. unedau glampio - dylai cytundeb lleol fod yn ddigon, â mesurau lliniaru.
- Dylem sicrhau amgylchedd a reolir i ymwelwyr fel y gallwn ddysgu pobl am fyd natur. Rhaid inni ein hariannu ni ein hunain - byddai angen i fusnesau dalu drostyn nhw eu hunain.



GRŴP DAFYDD

- SYNIAD RHIF 1 (arolygon ecolegol am ddim)
 - Pwy sy'n cynnal yr arolygon? Y tirfeddiannwr sy'n dewis. Cafwyd sylw yn y grŵp am bobl 'y gellir ymddiried ynddynt' i gynnal yr arolygon. Dywedodd rhai eu bod yn gyndyn o weld cynefinoedd gwerthfawr yn cael eu cofnodi'n swyddogol am iddynt golli cynefinoedd tebyg ar ôl i amodau rheoli gael eu gorfodi arnynt o ganlyniad i ddynodiadau (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). O ganlyniad i hyn, roeddent yn gyndyn o gael cynllun a oedd â'i ecolegwyr ei hun, ond roeddent yn frwd dros gael arolygon a ariannwyd os oedd cytundeb ynghylch pwy yn union fyddai'n eu cynnal a phe gellid sicrhau cyfrinachedd (yn gytundebol) .
 - GWCT ac yn y blaen, pobl 'y gellir ymddiried ynddynt' i gynnal yr arolygon.
 - Mae asesiadau cyfrinachol yn hanfodol.
 - Defnyddir i flaenoriaethu gwaith plannu coed priodol, wedi'i gymeradwyo gan ffermwyr. Dylai ffermwyr flaenoriaethu safleoedd posib ar y fferm sy'n diwallu eu hanghenion rheoli a'u system ffermio. Diben yr arolwg yw cynorthwyo i ddethol/dad-ddethol pethau o'r rhestr a sicrhau cymeradwyaeth os credir bod plannu yn briodol o safbwynt ecolegol.
 - A fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn hyn fel asesiad dilys? Mae'n debyg y gwrthodwyd arolygon llawn tebyg gan Lywodraeth Cymru yn rhan o brosesau asesu Tir Gofal a Glastir. O ganlyniad i hyn, mynegwyd pryderon ynghylch pa mor berthnasol yr oeddent wrth greu sail ar gyfer cynlluniau'r Llywodraeth drwy Gymru gyfan yn y dyfodol.
 - Cynnwys arferion hanesyddol a thynnu ar atgofion ffermwyr am ecoleg y gorffennol fel ffynhonnell i'r asesiadau.
 - Dychwelyd at yr asesiad ar ôl newid sut y rheolir pethau. Gwelir bod hyn yn hanfodol er mwyn creu sylfaen dystiolaeth gynyddol o arferion da a drwg - "dydy popeth ddim yn dilyn trywydd penodol, hyd yn oed â'r bwriadau gorau".
- SYNIAD RHIF 2 (llwybrau darganfod)
 - Sut fydd hyn yn eu haddysgu nhw?
 - Ai dim ond mynediad yw hyn dan gochl addysg? Mae ehangu mynediad yn syniad gwael, dylid defnyddio'r mynediad sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n ddigonol. Y canfyddiad yw bod ehangu mynediad yn rhywbeth negyddol. Mae digon o fynediad ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig gyda'r Hawl Tramwyo yn yr ucheldir. Byddai angen i'r hyn a 'ddarganfyddir' roi gwybodaeth go iawn inni am arferion rheoli/amaethyddiaeth (ni ddylai ganolbwyntio ar e.e. y rhywogaethau bywyd gwyllt sydd yno). Gwell fyddai gan bobl petai modd darparu gwybodaeth mewn ffordd nad yw'n amharu'n ormodol ar y dirwedd (y farn yw bod codau QR yn un ffordd o gadw arwyddion yn fach, ond maent hefyd yn cynnig llawer iawn o wybodaeth y gellir ychwanegu ati gydag amser).
 - Rhaid i hyn ddigwydd yn rhan o'r rhwydwaith hawliau tramwy / mynediad presennol, ni ddylid creu rhagor ohonynt.
 - A fyddai arwyddion yn gweithio? Mae codau QR yn adrodd stori. Rhoi sylw i arferion rheoli/ffermio. Syniad da.
- SYNIAD RHIF 3 (rhoi cynnig ar bethau newydd)
 - Canolbwyntio ar dda byw, nid coed. Plannu coed yn y man cywir lle nad oes modd pori.
 - Rhaglen geneteg da byw. Mae angen bridiau gwydn, ond rhaid gallu gaeafu anifeiliaid yn yr awyr agored er mwyn dethol bridiau.
 - Treialu gwaith llosgi dan reolaeth.



- **ARALL**
 - Pryder ynghylch y posibilrwydd o ddyblygu darpar-gynllun Llywodraeth Cymru - sut gallwch chi wybod? Yn berthnasol wrth weithio tuag at gronfeydd cyllido llai/mwy amrywiol - y gred oedd bod hyn yn fuddiol iawn. Roedd a wnelo'r sylwad hwn yn fwy ag ymyriadau a fyddai'n rhan o gynigion O'r Mynydd i'r Môr am gyllid. Yn gyndyn o dderbyn arian am ymyrraeth nawr a allai fygwth e.e. camau 'ychwanegol' y byddai eu hangen er mwyn cael bod yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru ymhen rhai blynyddoedd.
 - Ystyried cael llai o dda byw ar ddaliadau ar yr iseldir (gostwng i lefelau hanesyddol). Cydweithio rhwng daliadau ar yr iseldir a'r ucheldir er mwyn trosglwyddo da byw i'r ucheldir yn yr haf. Sicrhau bod yr archfarchnadoedd yn barod i gefnogi hyn neu gyflwyno prosesau caffael cyhoeddus ar gyfer cynnyrch sy'n perthyn i'r system hon (megis sero cilometr). Gall anifail gwell dreulio'r haf yn awyr agored ar yr ucheldir os nad oes angen iddo aeafu yno yn yr awyr agored. Cynyddu dygnwch/cynaliadwyedd y system gyfan. Mae cael trafodaeth ynghylch y nifer hanesyddol o dda byw yn ganolog i hyn. Gwelwyd bod lleihau da byw yn rhan o system i gynyddu cynhyrchiant daliadau'r iseldir (byddai hyn yn caniatáu gwell cnwd yn yr haf ar gyfer pobl ac anifeiliaid). Soniwyd am 'leihad' hefyd yng nghyd-destun cynyddu pori ar yr ucheldir, felly byddai cyfanswm Unedau Da Byw daliad yr iseldir yn lleihau (yn rhannol o leiaf) am fod rhai o'u hanifeiliaid yn cael eu cludo i'r ucheldir ym misoedd yr haf.

GRŴP STEVE

- **SYNIAD RHIF 1**
 - Nid oes digon o ddata ar hyn o bryd.
 - Ffermio traddodiadol - yr amodau sydd wedi'u gosod yn peri problemau. Rhaid i'r sgysiau newid 'ar y lefel uchaf'.
 - Gwrthbwyso carbon - gwastraff amser.
 - Gellir pori coetiroedd.
 - Ecosystemau - ond rhaid stopio siarad amdany'n nhw mewn cyd-destun llinol.
 - Angen gwaelodlin ar gyfer carbon - angen safonau.
 - Bioamrywiaeth - carbon - systemau cymhleth - tyfu bwyd. Sut y caiff y rhain eu mesur? Pwy sy'n eu mesur? Arolygon lleol sy'n cynnwys dadansoddiad gan y defnyddiwr/ar y cyd ag ef/hi.
 - Rheoli cylchoedd maethynnau ar y fferm.
 - Rhaid cynnwys pridd.
 - Mae'r fferm yn cael ei harolygu'n barod, ond nid yw hyn yn cael ei ddefnyddio yn sail i'r ffermio.
- Plannu rhagor o wrychoedd. Coed afalau yn y gwrychoedd.
- Mae'r cyhoedd bellach yn clywed rhagor am ffermio ac mae rhagor o ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith garddio, e.e. pleleiddiaid a chwynladdwyr.
- Mae gwrtaith a chwynladdwyr ar gompost yn effeithio ar dail. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar sut y caiff tail ei ddefnyddio mewn garddwriaeth.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi ffermio organig eto.
- Gosod amodau - effaith negyddol ar ffermio mewn ffordd fioamrywiol.
- Gwybodaeth ar y fferm.
- Gweithredu fel canolwr rhwng y ffermwr a llunwyr a pholisi er mwyn sicrhau hyblygrwydd - gwneud rhywbeth ystyrlon ar lefel leol.
- Ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch y gwir gost.



- Y bobl ar lawr gwlad - rhaid wrth ymddiriedaeth er mwyn dod i farn ansoddol.
- Cymru - angen cefnogi systemau garddwriaethol.
- Tir heb ei wella - rhagor o byllau a mannau gwlyb.

GRŴP SIÂN

- SYNIAD RHIF 1
 - Roedd gan aelodau'r grŵp ar y cyfan ddiddordeb yn y pwnc ac yn y cyfleoedd i ffermwyr i ddathlu'r byd natur sydd yno ac i weithio tuag at wella cynefinoedd petai hyn yn cael sylw yn y gwaith hwn.

Nid oes digon o ddata ar hyn o bryd, felly byddai'r uchod yn helpu yn hyn o beth ac felly byddai'n helpu i adrodd y stori.

- SYNIAD RHIF 2 (llwybrau darganfod)
 - Gallai hyn ddod yn rhan o wella sut rydym yn rhannu â'r cyhoedd yn ehangach stori ffermio mewn ffordd sy'n garedig tuag at fyd natur.
- SYNIAD RHIF 3 (rhoi cynnig ar bethau newydd)
 - Cefnogaeth ar gyfer adnodd a fyddai'n talu am weision fferm sy'n dysgu Cymraeg wrth iddynt weithio - daw hyn â'r gymuned, byd natur, ffermio a diwylliant at ei gilydd. Un syniad oedd rhoi taliad i ysgwyddo hanner y cyflog. Gallai'r undebau amaeth fod yn cydlynu hyn, neu Cyswllt Ffermio.
 - Cafwyd diddordeb mewn ymchwilio i bori neu ffermio daliadau tir mewn cylchdro.
 - Cafwyd llawer o ddiddordeb mewn defnyddio ynni adnewyddadwy i helpu i gadw costau'n isel - cynhyrchu ein hynni dŵr neu solar ein hunain. Y prif beth sy'n rhwystro hyn yw'r diffyg cymorth i gydlynu'r gwaith, o safbwynt gwybodaeth dechnegol ac o ran cydlynu pethau dros fwy nag un daliad tir. Llawer o ddiddordeb mewn gweld yr ardal yn ei gwerthu ei hun fel ardal Defnydd Tir/Ffermio Di-Garbon, felly byddai hyn yn helpu i wireddu'r nod hwn a chreu clystyrau ffermio.
 - Sero-net - sut y gall gwartheg sy'n pori helpu i wireddu hyn? Mae'n bwysig bod y ffigurau a'r gwaith cyfrifo yn gywir. Diddordeb mewn gwahodd Prysor Williams (Prifysgol Bangor) i'n hannerch, a Dr Iwan Owens. Mae llai o garbon fel rheol yn gofyn am lai o fewnbwn ac mae'n cadw costau'n is. Mae hyn yn dda i ffermydd.
- ARALL
 - Diddordeb mewn ymchwilio i'r bylchau mewn cynlluniau cenedlaethol y gallai prosiect fel hwn eu hariannu.
 - Diddordeb mewn dylanwadu ar bolisi yn lleol a, thrwy hynny, y gobaith yw defnyddio hyn fel sail ar gyfer polisi cenedlaethol.
 - Coed - diddordeb mewn ymchwilio i ba goed sy'n tyfu'n well, rhywogaethau penodol ar gyfer defnydd penodol. Crybwyllwyd y gallai'r locust du fod yn bosibilrwydd.
 - Pwysigrwydd gwartheg - yn hanesyddol, rhoddwyd taliadau am gadw buwch. Trafodaeth am y coleri tracio GPS electronig a sut y gallai ffermwyr sy'n awyddus i ymchwilio i batrymau pori newydd eu defnyddio. Byddai ysgwyddo costau cyfalaf cychwynol y coleri yn boblogaidd. Mae hyn hefyd yn helpu'r ffermwr i gadw llygad fanylach ar ei anifeiliaid a'u symudiadau, ac i greu sail ar gyfer penderfyniadau'r dyfodol.



TRAFODAETH YN Y SESIWN LAWN

- Bwrw golwg ar system y fferm gyfan.
- Bwrw golwg ar dulliau cydweithredu rhwng ffermydd iseldir ac ucheldir. Rhyddhau rhagor o dir iseldir ffrwythlon i dyfu cynydu. Teimlad nad yw'r ucheldir yn cael ei bori ddigon, felly byddai hyn yn datrys 2 broblem ar yr un pryd.
- Gwybodaeth ffermwyr am systemau ffermio a phori'r gorffennol - data hanesyddol anecdotaidd am y berthynas rhwng systemau ecolegol a systemau ffermio.
- Carbon - mae'r wyddoniaeth yn gymhleth iawn - rhaid wrth wyddoniaeth go iawn - rydym am brofi beth mae Gorllewin Cymru yn ei wneud.
- Carbon - a oes modd profi gydag amser bod ffermwyr yn sero-net? Dangos y straeon da am ymdrechion ffermydd i wireddu sefyllfa sero-net?
- Diffyg gwybodaeth er mwyn cael cyngor go iawn am ynni dŵr a gwynt. Byddai hyn yn helpu i gadw costau'n isel a byddai'n cefnogi ymdrechion i ddefnyddio llai o danwydd ffosil. Hefyd, yn helpu ffermwyr i reoli'u costau.
- Rhagor o wybodaeth 'go iawn' sy'n berthnasol i'r uned ffermio.
- Archfarchnadoedd/prosesau caffael cyhoeddus sy'n barod i gefnogi systemau cynaliadwy. Cynnig sicrwydd tymor hir sy'n arwain at newid.
- Sicrhau bod y stori'n gwahaniaethu rhwng ffermio da a ffermio drwg.

PLEIDLEISIAU

Syniad	Y nifer o bleidleisiau
Defnyddio gwyddoniaeth i brofi sut mae'r ffermio'n gynaliadwy, gwyddoniaeth garbon ar ffermydd	11
Carbon - un o straeon da ffermio wrth sicrhau sefyllfa sero-net.	6
Dod â gwybodaeth ffermwyr am systemau ffermio/pori'r gorffennol a pherthynas ffermwyr â rhywogaethau ynghyd.	5
Cydweithredu rhwng ffermydd yr iseldir a'r ucheldir fel bod pawb yn elwa - rhyddhau tir ar yr iseldir er mwyn tyfu cynydu, mynd i'r afael â'r diffyg pori ar yr ucheldir.	4
Hyrwyddo'r straeon da am ffermio.	4
Mesur beth sydd yno ar y tir - data cyfrinachol - gwaelodlin	3
Galluogi dulliau unigol (peidio â mabwysiadu un dull ar draws ardal fawr).	3
Gwybodaeth/cyngor am ynni dŵr, gwynt ac ati i gefnogi ffermydd i ddefnyddio llai o danwyddau ffosil, cadw costau'n isel.	2
Plannu coed yn y mannau CYWIR.	2
Codau QR sy'n gallu adrodd stori/rhoi sylw i arferion ffermio/dulliau rheoli tir.	2
Adnodd i dalu am weision fferm sy'n dysg Cymraeg.	1
Ailgyflwyno'r gylfinir.	1
Cadwyni cyflenwi lleol gwell	1
Treialu gwaith llosgi dan reolaeth	1
Lladd-dy/hufenfa gydweithredol.	1
Rhaglen geneteg da byw.	
Gweledigaeth i Orllewin Cymru sydd ag effaith/ffocws lleol iawn.	